# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar

**Blant sy'n Derbyn Gofal**

**Dydd Mercher 20 Mehefin 2017**

**12.30 - 1.30**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC - Cadeirydd

Lee Waters AC

**Yn bresennol:**

Deborah Jones - Voices From Care

Rhian Williams - Cynorthwy-ydd Personol / Ysgrifennydd Gweinyddol, Voices From Care - (yn cymryd y cofnodion)

Tim Crahart - Voices From Care

Philip Mangham, y Gwasanaeth Addysg Gatholig

Menna Thomas - Barnardo's Cymru

Danielle Cope - Gweithredu dros Blant

Charlotte Wooders - Rhwydwaith Maethu Cymru

Sharon Lovell - NYAS

Leoni Oxenham - Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Hywel Dafydd - Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Jack Sellers - Ymchwilydd i D. Melding AC

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Tom Davies - Cymdeithas y Plant

Huw Irranca-Davies AC

Cecile Gwilym - NSPCC

Maria Boffey - Rhwydwaith Maethu Cymru

**CROESO A CHYFLWYNIAD GAN Y CADEIRYDD**

Agorodd DM y cyfarfod trwy groesawu pawb; gan ymestyn croeso arbennig i'r rhai a oedd yn newydd. Cafwyd cyflwyniadau o gylch y bwrdd a rhoddodd DM ddisgrifiad byr o'r Grŵp ar gyfer yr aelodau newydd a oedd yn bresennol.

**COFNODION**

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mai 2017 a chawsant eu cymeradwyo.

**MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS I WASANAETHAU AR GYFER PLANT SYDD WEDI BOD MEWN GOFAL**

Esboniodd DM fod y Pwyllgor yn edrych ar effeithlonrwydd a gwerth am arian gwariant cyhoeddus o safbwynt cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, ac y bydd yn dechrau ar ei waith yn yr hydref. Mae DM yn rhagweld y bydd y grŵp yn gweld llawer o waith diddorol.

Cadarnhaodd LW fod gwaith y Pwyllgor yn debygol o ddechrau yn yr hydref ac estynnodd wahoddiad agored i aelodau'r grŵp gysylltu ag ef os oes ganddynt unrhyw gwestiynau a bydd yn ceisio ei orau i'w cynorthwyo. Nodwyd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn eithaf cadarn a chynhwysfawr. Nodwyd ymhellach fod y gwrandawiad cychwynnol ym mis Tachwedd yn bwrw golwg cyffredinol ar y gwaith, ac nad yw'n gyfarfod gorchwyl a gorffen. Rhoddodd LW wybod bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cytuno i ymgymryd â'i ddarn o waith ei hun ar blant sy'n derbyn gofal i gefnogi gwaith y Pwyllgor. Diolchodd HD i LW am y wybodaeth ddefnyddiol a dywedodd y byddai'n cwrdd â'r Swyddfa Archwilio yn y dyfodol agos.

Anogodd DM aelodau i ymwneud ag ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel y bo'n briodol.

**GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG**

Dywedodd DM y cynhelir cyfarfod nesaf grŵp cynghori'r Gweinidog ddydd Gwener 23 Mehefin ac y byddai'r heddlu yn rhoi cyflwyniad ar waith MISPA (personau ar goll) yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan ohono. Disgwylir rhai datblygiadau sylweddol o ran rhianta corfforaethol er mwyn codi safonau a chysondeb. Soniodd DJ am y themâu sylweddol rhwng y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a'r rhai sy'n gadael gofal, er enghraifft prentisiaethau.

O ran rhianta corfforaethol a'r hyn sy'n gweithio, dywedodd DJ mai un mater sylfaenol i Voices From Care yw'r dystiolaeth anecdotaidd nad yw rhai adrannau mewn awdurdodau lleol yn cyfathrebu â'i gilydd. Dywedodd DM fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhoi dull rhianta corfforaethol ar waith o fewn ei gwahanol adrannau.

Dywedodd DM fod Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, wedi rhoi cyflwyniad da ar yr Adroddiad Breuddwydion Cudd. Roedd yr adroddiad yn gofyn i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, elusennau a mentrau preifat ymrwymo i gefnogi'r gwaith o sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal y gefnogaeth briodol i wireddu eu huchelgais. Roedd hefyd yn tynnu sylw at rai o'r anghydraddoldebau a wynebir gan y rhai sy'n gadael gofal a'r rhai sydd mewn gofal.

O ran ymweld yn annibynnol â phlant sy'n derbyn gofal ac adroddiad ymchwil cyn Gomisiynydd Plant Cymru, Keith Towler, cododd SL y cwestiwn o edrych ar werth ymwelwyr annibynnol gan fod rhai awdurdodau lleol, ond nid eraill, yn eu defnyddio.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch pobl sy'n gadael gofal, lle crybwyllodd SL fentrau da'r Alban ar gyfer pobl sy'n gadael gofal e.e. eu cefnogi wrth iddynt fynd i addysg bellach. Rhoddodd DM wybod fod gan Gaerffili raglen dda iawn o ran cysylltu â rhai sy'n gadael gofal ac addysg bellach, a theimlai ei bod hi bellach yn bryd codi'r oed yn ffurfiol i 25. Dywedodd DJ fod angen mynd i'r afael â pham mae rhai pobl ifanc yn gadael y system gofal yn 16 ac yn 'diflannu oddi ar y radar'.

Cynigiodd DM a chytunwyd i gadw grŵp cynghori'r Gweinidog fel eitem dreigl ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol.

**<u>CRONFA DYDD GŴYL DEWI A CHYHOEDDIADAU ERAILL YM MAES ARIANNU</u>**

O ran Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, dywedodd DM nad oedd yn sicr a sefydlwyd cynllun hyd yma ai peidio, ond y bydd y Gwasanaeth Sifil yn mynd i'r afael â hyn maes o law. Cyhoeddodd DM mai ei ddealltwriaeth ef oedd y byddai rhwng £8 a £10 miliwn ar gael i gefnogi gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn ogystal â gwasanaethau presennol.

**<u>UNRHYW FATER ARALL</u>**

Rhoddodd DJ wybod am fater a nodwyd trwy'r 5N1V, yn ymwneud â'r stigma sydd ynghlwm wrth fod mewn gofal, a dywedodd y dylai adroddiad fod ar gael ymhen wythnos. Cytunwyd y byddai DJ yn anfon copi o'r adroddiad at DM.

**CAM GWEITHREDU: D. JONES**

Rhoddodd HD wybod y byddai'n mynd i gyfarfod Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad ar 20 Gorffennaf.

Dywedodd CW fod adroddiad y Rhwydwaith Maethu ar ofal gan berthynas a gofal maeth yn nodi'r angen am gysondeb yn gyffredinol nad yw bob amser yn cael ei gyflawni. Cytunwyd y byddai DJ yn anfon yr adroddiad at LW.

**CAM GWEITHREDU: CW**

Cynigiwyd a chytunwyd ychwanegu diffyg cyswllt â brodyr a chwiorydd at yr agenda yn y cyfarfod nesaf yn yr hydref.

**CAM GWEITHREDU: RW**

O ran cyfarfodydd grŵp yn y dyfodol, nododd DM ei fod yn croesawu syniadau gan aelodau gan awgrymu y gellid eu bwydo'n uniongyrchol i RW.

Cynigiwyd a chytunwyd y byddai dau gyflwyniad 15 munud, gan gynnwys slot hawl i holi pum munud o hyd yr un yn y cyfarfod nesaf. Byddai VFC yn rhoi cyflwyniad ar Gyswllt ac NYAS yn rhoi cyflwyniad ar y Dull Eirioli Cenedlaethol.

Rhoddodd HD wybod fod Dr. Emily Warren, cyn Gyfarwyddwr Rhwydwaith Maethu Cymru, ar hyn o bryd yn gweithio yng Nghaliffornia, a bod ei chanfyddiadau diweddar yn ddiddorol iawn. Dywedodd DM ei fod yn ymwybodol o hyn ac y byddai'n cyfarfod â Dr. Warren yn y dyfodol agos.

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**<u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

RW i gysylltu ag S. Sharpe a throsglwyddo manylion y cyfarfod nesaf i aelodau'r grŵp.

**CAM GWEITHREDU: RW**

Diolchodd DM i bawb am ddod a chan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben.